# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 26 Tachwedd 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion

(233)v3

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 1, 5 a 9 gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a'r Dirprwy Wenidog Ffermio a Bwyd ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Gofynnwyd cwestiynau 1 – 11 ac 14 – 15. Trosglwyddwyd cwestiwn 12 i'w ateb yn ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Tynnwyd cwestiwn 13 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Cwestiwn Brys**
Dechreuodd yr eitem am 15.04

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad brys am amseroedd ymateb ambiwlansys ar gyfer mis Hydref sy'n dangos mai dim ond 55.5% o ymatebion brys i alwadau categori A (bygythiad difrifol i fywyd) a gyrhaeddodd y safle o fewn wyth munud? EAQ(4)0524(HSS)

**3 Dadl ar adroddiad dilynol y Pwyllgor Menter a Busnes ar Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM)**

Dechreuodd yr eitem am 15.18

**NDM5637 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Medi 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**4 Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)**

Dechreuodd yr eitem am 16.00

**NDM5628 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

Gosodwyd y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 15 Gorffennaf 2014.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 14 Tachwedd 2014.

**Tynnwyd y cynnig yn ôl yn unol â Rheol Sefydlog 12.27**

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 16.46

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5638 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd adeiladau crefyddol Cymru i dreftadaeth genedlaethol Cymru.

2. Yn croesawu'r Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Ffydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r gydnabyddiaeth bod gan adeiladau crefyddol rôl o ran denu ymwelwyr i Gymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda chymunedau ffydd a rhanddeiliaid eraill i greu cofrestr o adeiladau crefyddol pwysicaf Cymru fel y gallant gael eu diogelu'n briodol ar gyfer y dyfodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 4 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 6 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.46

**Crynodeb o Bleidleisiau**

## 7 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.47

**NDM5635 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cŵn Tywys Cymru: rhyddid i symud i bobl ddall a rhannol ddall yng Nghymru.

I godi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cŵn Tywys Cymru yng Nghymru a cheisio barn Llywodraeth Cymru ynghylch beth arall y gellir ei wneud i gefnogi pobl sydd wedi colli eu golwg.

**8 Dadl Fer - Gohiriwyd o 19 Tachwedd 2014**

Dechreuodd yr eitem am 18.07

**NDM5629 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Pobl hŷn a gwaith: cydnabod cyfraniad pobl hŷn yn y gweithlu ledled Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.26

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 2 Rhagfyr 2014**